Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad y Gymraeg 2020-21

Medi 2021



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

# Cynnwys

**Adroddiad manwl** **4**
Cyflwyniad 4
Cyfathrebu â'r staff am y safonau 5
Strategaeth y Gymraeg 6
Recriwtio 7
Sgiliau Cymraeg 7
Hyfforddiant sgiliau Cymraeg 11
Llunio polisïau 12
Cwynion 13

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn am y Gymraeg yn amlinellu'r gwaith a wnaed gennym i hyrwyddo'r iaith yn Archwilio Cymru yn ystod 2020-21, ac yn rhoi cipolwg ar ein sefyllfa ar hyn o bryd.

2 Archwilio Cymru yw brand ymbarél Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, ond nid yw'n endid cyfreithiol ynddo'i hun, ac fe ddechreuwyd defnyddio'r brand ar 1 Ebrill 2020. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ill dau eu hysbysiadau cydymffurfio eu hunain o ran y Gymraeg, ac maent yn dal i fod yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi'r perfformiad o ran y ddwy set o safonau. Bydd yn cael ei rannu ar wefan Archwilio Cymru a thrwy ein cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol, a bydd hefyd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd.

3 Cafodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru eu hysbysiadau cydymffurfio o ran Safonau'r Gymraeg (y safonau) ym mis Gorffennaf 2016. Mis Ionawr 2017 oedd dyddiad gosod llawer o'r safonau hyn; daeth 14 safon arall i rym yn ystod 2017-18 ac wyth yn 2018-19.

4 Ochr yn ochr â'r safonau, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n disgrifio sut yr ydym wedi cydymffurfio â safonau penodol a chydymffurfio'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Er mai asesu cydymffurfiaeth yw prif swyddogaeth yr adroddiad hwn, mae hefyd yn gyfle inni ystyried yr hyn a wnaed gennym i hyrwyddo defnydd ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol, a phennu sut y gallwn wella ymhellach.

5 Rydym yn amlinellu ein trefniadau i gydymffurfio â'r safonau ar ein gwefan. Mae Swyddog y Gymraeg llawn-amser yn gweithio yn Archwilio Cymru ac mae'n gyfrifol am reoli'r safonau o ddydd i ddydd ac am hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am gadw trosolwg strategol ar y Gymraeg ac am faterion llywodraethu corfforaethol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.

6 6Cyflawnwyd ystod eang o weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg yn Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac rydym yn nodi'r manylion isod. Gellir gwneud mwy, ac rydym yn bwriadu adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae Strategaeth y Gymraeg wedi bod yn allweddol i hyn. Mae'n amlinellu'r sefyllfa ar hyn o bryd, ein huchelgeisiau, a'r camau gweithredu yr ydym yn bwriadu eu cymryd i wireddu'r uchelgeisiau hynny. Wrth i ni fynd i mewn i flwyddyn olaf y strategaeth byddwn yn adolygu ei heffaith hyd yma a beth fydd ein huchelgeisiau a'n camau gweithredu yn y dyfodol.

7 Mae'r flwyddyn flaenorol wedi dod â newid drastig yn ei sgîl o ran y ffyrdd yr ydym yn gweithio oherwydd pandemig COVID-19, ond rydym wedi parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog trwy gydol y cyfnod.

## Cyfathrebu â'r Staff am y Safonau

8 Mae'n bwysig rhoi gwybod i'r staff am ofynion y safonau i sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael iddynt – gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu, technoleg, a deunydd adnoddau dynol. Mae hefyd yn bwysig cyfathrebu i sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau o dan y safonau, er enghraifft pan fyddant yn ateb galwadau ffôn neu ohebiaeth allanol.

9 9Pan fydd staff newydd yn cyrraedd y sefydliad, maent yn cael sesiwn gynefino bwrpasol lle maent yn cael cyflwyniad i'r safonau o ran eu gwaith a'u cyflogaeth gyda ni. Mae hefyd yn ofynnol i staff newydd di-Gymraeg gwblhau cwrs Croeso ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol lle maent yn dysgu ychydig o Gymraeg sylfaenol ar gyfer y gweithle ac yn datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ym **mharagraff 23**.

10 Rydym wedi darparu offer a chanllawiau niferus ar gyfer staff mewn perthynas â'r safonau sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn gweithio. Er enghraifft, rydym yn darparu canllawiau a thempledi ar gyfer llofnodion e-bost a negeseuon 'allan o'r swyddfa', gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o deitlau swyddi. Mae cyfres o dechnolegau Cymraeg hefyd ar gael i'r staff ar gais, gan gynnwys 'Cysill' a 'Cysgeir', gwirydd sillafu Cymraeg Microsoft Office, a 'To Bach'. Yn ddiweddar rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn darparu 'Cysill' a 'Cysgeir' ar gyfer staff trwy eu cynnwys fel rhan annatod o liniaduron newydd neu wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl staff ni waeth beth fo'u gofynion o ran iaith.

11 Mae ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn amlinellu'r safonau perthnasol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau ein staff o ddydd i ddydd. Yn eu plith mae ateb galwadau ffôn ac ymateb i ohebiaeth, parchu dewisiadau iaith y cyrff a archwilir gennym a'r cyhoedd, a materion i'w hystyried cyn arddangos posteri ac arwyddion yn ein swyddfeydd. Rydym hefyd wedi ychwanegu bod rhaid i bob e-bost at yr holl staff fod yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn cael ei osod yn y man lle mae'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu'r hawliau sydd gan y staff o dan y safonau, fel argaeledd technolegau Cymraeg, eu mynediad at hyfforddiant Cymraeg, a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn tynnu sylw at eu hawliau i gael dogfennau adnoddau dynol, yn ogystal â chyfarfodydd disgyblu a chwynion cyflogaeth, yn Gymraeg.

12 Mae polisi'r Gymraeg ar gael i'n staff ei ddarllen ar ein mewnrwyd a chafodd ei adolygu a'i ddiweddaru ym mis Ionawr 2021.

## Strategaeth y Gymraeg

13 Ym mis Mehefin 2019, cytunodd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar Strategaeth y Gymraeg a fyddai'n para tair blynedd. Un o'r prif resymau dros lunio'r strategaeth hon oedd y penderfyniad i beidio â defnyddio cwmnïau i gynnal rhai o'n harchwiliadau yn y dyfodol, gan bod llawer o'r archwiliadau hyn yn cael eu cynnal mewn sefydliadau y mae'n well ganddynt ymwneud â'u gwaith yn Gymraeg. Ffactor pwysig arall oedd lefelau ein siaradwyr Cymraeg, y diffyg cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, a lleoliad ein siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad.

14 Mae'r strategaeth yn cwmpasu pedwar maes allweddol i'w datblygu – recriwtio; hyfforddiant; cyfleoedd; a gwybodaeth.

15 Er nad yw'n ofynnol inni lunio Strategaeth y Gymraeg o dan y safonau, rydym yn tybio bod hyn yn ffordd dda o ddangos ein hymrwymiad ac o sicrhau ein bod yn mynd gam ymhellach na chydymffurfio yn unig. Rydym yn tybio mai'r safonau yw sylfaen yr hyn y dylem fod yn ei wneud o ran yr iaith, ac felly mae'r eitemau a drafodir yn y strategaeth hon yn mynd y tu hwnt i'r safonau neu'n atgyfnerthu'r hyn a ddarperir ganddynt.

## Recriwtio

16 Yn ystod 2020-21, fe wnaethom hysbysebu 42 o swyddi newydd neu wag, gan recriwtio'n fewnol ac yn allanol. Roedd yr hysbysebion ar gyfer 8 o'r swyddi hyn yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'hanfodol' a'r hysbysebion ar gyfer 34 o'r swyddi hyn yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol'.

17 Llwyddwyd i recriwtio i bob swydd y nodwyd fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer.

18 O'r 42 o swyddi (8 y nodwyd fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer) a hysbysebwyd, roedd 23 (5 y nodwyd fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer) yn brentisiaid a hyfforddeion graddedig, roedd 36 (8 y nodwyd fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer) yn y gwasanaethau archwilio, a 6 (0 y nodwyd fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer) yn y gwasanaeth corfforaethol.

19 O fewn ein hymgyrchoedd recriwtio prentisiaid a graddedigion, mae gennym ymrwymiad y bydd o leiaf 20% o'n swyddi yn rhai y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer. Gyda'r holl weithgarwch recriwtio arall, bydd unrhyw ymgyrchoedd sy'n recriwtio ar gyfer 3 swydd neu fwy'n nodi bod o leiaf 20% o'r swyddi gwag yn rhai y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer. Dyma isafswm y gofynion ar gyfer y gweithgareddau recriwtio hyn ac maent yn dal i fod yn amodol ar asesiadau o sgiliau Cymraeg a all gynyddu'r gofynion.

## Sgiliau Cymraeg

20 Amlinellir sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21 yn **Nhabl 1**. Rydym hefyd wedi darparu dadansoddiad o'n sgiliau Cymraeg yn ein gwasanaethau archwilio a chorfforaethol. Mae ein staff yn hunanwerthuso eu sgiliau Cymraeg ac yn eu cofnodi yn y porth Hunanwasanaeth Cyflogeion. Tuag at ddiwedd pob blwyddyn ariannol, rydym yn annog yr holl staff i ddiweddaru ac i gofnodi eu sgiliau Cymraeg ac i nodi eu lefel gan ddefnyddio'r Matrics Sgiliau Cymraeg. Ers hynny, rydym wedi diweddaru'r matrics, ac mae staff bellach yn defnyddio'r matrics ar ei newydd wedd i nodi eu sgiliau.

### Tabl 1: Sgiliau Cymraeg holl staff Archwilio Cymru

Nifer staff Archwilio Cymru sydd ar lefel ymwybyddiaeth, mynediad, sylfaen, canolradd, uwch neu rugl o ran gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 199 | 204 | 204 | 204 |
| 1 – Mynediad | 9 | 5 | 8 | 10 |
| 2 – Sylfaen | 11 | 9 | 7 | 5 |
| 3 – Canolradd | 6 | 5 | 9 | 9 |
| 4 – Uwch | 9 | 13 | 3 | 6 |
| 5 – Rhugl | 26 | 24 | 29 | 26 |
| **Cyfanswm** | **260** | **260** | **260** | **260** |

21 Rydym hefyd yn dangos nifer y sgiliau Cymraeg yn y sefydliad wedi'u dadansoddi yn ôl gwasanaethau archwilio a gwasanaethau corfforaethol yn **Nhablau 2 a 3** yn y drefn honno.

### Tabl 2: Sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru yn ein gwasanaethau archwilio

Nifer staff Archwilio Cymru sydd ar lefel ymwybyddiaeth, mynediad, sylfaen, canolradd, uwch neu rugl o ran gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 162 | 165 | 165 | 164 |
| 1 – Mynediad | 5 | 3 | 4 | 5 |
| 2 – Sylfaen | 6 | 4 | 4 | 4 |
| 3 – Canolradd | 5 | 4 | 8 | 8 |
| 4 – Uwch | 9 | 12 | 3 | 5 |
| 5 – Rhugl | 20 | 19 | 23 | 21 |
| **Cyfanswm** | **207** | **207** | **207** | **207** |

**Tabl 3: Sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru yn ein gwasanaethau corfforaethol**

Nifer staff Archwilio Cymru sydd ar lefel ymwybyddiaeth, mynediad, sylfaen, canolradd, uwch neu rugl o ran gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 37 | 39 | 39 | 40 |
| 1 – Mynediad | 4 | 2 | 4 | 5 |
| 2 – Sylfaen | 5 | 5 | 3 | 1 |
| 3 – Canolradd | 1 | 1 | 1 | 1 |
| 4 – Uwch | 0 | 1 | 0 | 1 |
| 5 – Rhugl | 6 | 5 | 6 | 5 |
| **Cyfanswm** | **53** | **53** | **53** | **53** |

22 Rydym wedi gweld cynnydd araf yng nghanran y sgiliau Cymraeg yn Archwilio Cymru yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf fel a ddangosir yn Nhabl 4 gyda chynnydd o 3% ers 2017-18. Digwyddodd hyn trwy gymysgedd o newidiadau i lefelau staff ar y cyfan, staff yn nodi trwy hunangofnodi bod datblygiad wedi bod yn eu sgiliau Cymraeg ac yn diweddaru eu proffiliau yn unol â hynny, a thrwy recriwtio staff sy’n siarad Cymraeg.

**Tabl 4: Sgiliau Cymraeg o 2017-18 – 2020-21**

Nifer a chanran y staff sydd wedi nodi trwy hunangofnodi eu bod ar lefelau Uwch (lefel 4) a Rhugl (lefel 5) ym mhob un o’r pedwar maes o ran sgiliau Cymraeg rhwng 2017-18 a 2020-21.

| | Gwrando | | Darllen | | Siarad | | Ysgrifennu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 2017-18 | 27 | 10.1% | 28 | 10.4% | 25 | 9.3% | 25 | 9.3% |
| 2018-19 | 33 | 12.5% | 33 | 12.5% | 31 | 11.7% | 30 | 11.4% |
| 2019-20 | 33 | 12.3% | 33 | 12.3% | 32 | 11.9% | 30 | 11.2% |
| 2020-21 | 35 | 13.5% | 37 | 14.2% | 32 | 12.3% | 32 | 12.3% |

# Hyfforddiant sgiliau Cymraeg

23 Yn ystod 2020-21, cymerodd staff ran mewn gwerth mwy na 40.5 o ddiwrnodau gwaith o hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a/neu hyfforddiant dysgu Cymraeg fel a ddangosir yn Nhabl 5.

**Tabl 5: Hyfforddiant Sgiliau Cymraeg**

Yr hyfforddiant sgiliau Cymraeg a ddarparwyd ar gyfer staff yn ystod 2019-20.

| | Dyddiadau | Cyfranogwyr | Cyfanswm oriau dysgu |
|---|---|---|---|
| Welsh-language awareness induction | Various dates April 2020 to March 2021 | 23 | 11.5 |
| Work Welsh Online 'Croeso' courses | April 2020 to March 2021 | 17 sign-ups 10 completed | 168 |
| Work Welsh Online 'Gwella' course | April 2020 to March 2021 | 3 sign-ups 1 completed | 13 |
| Say Something in Welsh | April 2020 to March 2021 | 15 | 73 |
| Weekly classes | September 2020 to June 2021 | 1 | 18 |

24 I gydnabod yr ymrwymiad y mae ei angen i aelod o staff ddysgu iaith newydd, ym mis Mehefin 2016 fe gytunodd yr uwch reolwyr ar weithdrefnau newydd ar gyfer ymrwymiadau o ran amser ac arian. Mae Archwilio Cymru'n talu'n llawn am y cyrsiau, a gall staff ddefnyddio hyd at 5 diwrnod o'r lwfans hyfforddiant a ddyrennir iddynt i ddysgu Cymraeg (gyda'r unigolyn ei hun yn neilltuo'r un faint o'i amser ei hun ag a ddarperir gan Archwilio Cymru). Roedd y weithdrefn hefyd yn nodi, os yw'r gofyniad o ran sgiliau Cymraeg ar gyfer rôl aelod o staff yn cael ei newid i 'hanfodol', ei fod wedi'i eithrio rhag neilltuo'r un faint o'i amser ei hun ag a ddarperir gan Archwilio Cymru.

25 Mae gennym fentrau eraill hefyd i annog staff i ymarfer eu Cymraeg. Er nad oes modd cynnal ein sesiynau coffi a chlonc yn ystod y pandemig, fe ddechreuom ni sesiynau 'Catch-up Cymraeg' sy'n estyn croeso i siaradwyr rhugl a dysgwyr drafod ystod o bynciau gan gynnwys materion cymdeithasol a materion sy'n ymwneud â gwaith.

# Hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

26 Darparwyd dau gwrs yn ddwyieithog yn Archwilio Cymru yn ystod 2020-21, sef gweminar Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chwrs e-ddysgu Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. O ran yr hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant roedd staff yn gallu dewis rhwng cyfres o sesiynau trwy gyfrwng y Saesneg a sesiwn trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd yr hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ei ddarparu'n awtomatig naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg yn ôl dewis iaith yr aelod o staff ar gyfer gohebiaeth a gallai'r aelod o staff ofyn am newid y cyfrwng iaith os oeddent yn dymuno.

**Tabl 6: Hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg**

Niferoedd a chanrannau'r staff a gwblhaodd gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

| Cwrs | Dull dysgu | Niferoedd | Canran |
|---:|---:|---:|---:|
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Gweminar ryngweithiol | 14 | 5.3% |
| Iechyd a Diogelwch yn y gwaith | e-ddysgu | 12 | 4.5% |

27 Rydym yn nodi, fel sefydliad, ein bod yn parhau i brofi anawsterau gyda darpariaeth cyrsiau dwyieithog ar y farchnad sy'n gweddu i'n gofynion ni ar gyfer ein cyrsiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac Iechyd a Diogelwch. Mae ein darpariaeth gyfredol yn dechrau mynd yn hen ac rydym wedi bod yn ceisio caffael darpariaeth newydd am beth amser. Mae gennym dri phrif ofyniad, sef:

- llwyfan cwbl ddwyieithog, a gorau oll os yw'n cynnwys y gallu i newid yn rhwydd rhwng y ddwy iaith yn ystod y cwrs;
- cyrsiau ar-lein er mwyn i ni allu bod yn hyblyg o ran pryd y mae staff yn eu cwblhau, yn hytrach na dysgu wedi'i hwyluso ar amser penodedig; a
- cwrs 'parod' oherwydd y nifer cyfyngedig o staff y mae arnom angen iddynt eu cwblhau yn hytrach na chyrsiau at ofynion unigol sy'n galw am fuddsoddiad uwch sylweddol.

28 Gellir dod o hyd i sawl cyfuniad o ddau o'r tri gofyniad uchod, ond mae cynnwys trydydd gofyniad wedi golygu ein bod wedi ei chael yn anodd caffael cyrsiau o'r fath. Rydym wedi ceisio cyngor yn flaenorol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar achosion penodol, ond byddem yn croesawu unrhyw arweiniad neu bwysau ar y diwydiant i wella'r maes hwn ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Llunio Polisïau

29 Rydym wedi cwblhau asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg mewn perthynas â 7 polisi a phenderfyniad polisi yn ystod y flwyddyn, fel a restrir yn **Nhabl 7**. Mae'r asesiadau hyn o'r effaith yn ofynnol ar gyfer pob polisi newydd a pholisi a adolygwyd i sicrhau effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Tabl 7: polisïau a phenderfyniadau polisi**

Y polisïau a phenderfyniadau polisi y cynhaliwyd asesiadau o'u heffaith ar y Gymraeg yn ystod 2020-21.

| Polisi |
| --- |
| Proses arfaethedig i ailstrwythuro'r tîm Datblygu ac Arweiniad Archwilio |
| Adolygiad o'r Llawlyfr Rheolaeth Ariannol |
| Polisi Dysgu a Datblygu |
| Lwfans Dros Dro ar gyfer Dyletswyddau Ychwanegol o fewn y Polisi Cyflog |
| Gweithio'n Ddoethach |
| Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol |
| Polisi'r Gymraeg |

30 Yn dilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar asesu effaith polisïau a gweithdrefnau, fe wnaethom adolygu ein prosesau ni ein hunain ar gyfer asesu'r effaith i sicrhau eu bod yn addas i'w diben. Un o'r diwygiadau oedd sicrhau bod Swyddog y Gymraeg yn cael ei gynnwys yn well yn y broses.

31 Fel mae'n digwydd, Swyddog y Gymraeg ar hyn o bryd yw cadeirydd Grŵp Buddiant Cydraddoldeb Archwilio Cymru, PAWB, grŵp yr ymgynghorir ag ef ynghylch pob polisi.

## Cwynion

32 Yn ystod 2020-21, ni ddaeth unrhyw gwynion i law drwy Gomisiynydd y Gymraeg na chan y cyhoedd.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru